# Polisi Cydymffurfiaeth Deddf Cyllid Troseddol 2017

## 1. Diben a Chwmpas

Mae Prifysgol Abertawe, gan gynnwys ei his-gwmnïau (y Brifysgol), yn ymrwymedig i gynnal ei gweithrediadau academaidd, gweinyddol a masnachol mewn modd moesegol sy'n parchu'r gyfraith ac ni fydd yn goddef gweithredoedd troseddol o hwyluso efadu trethi gan ei gweithwyr, ei his-gontractwyr neu unrhyw un o'i chwmnïau cysylltiedig unrhyw le yn y byd.

Diben y polisi hwn yw amlinellu cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r sawl sy'n gweithio iddi, p'un a yw hynny fel swyddog, gweithiwr cyflogedig, gweithiwr, is-gontractwr, asiant neu unrhyw swydd arall, wrth ddilyn a glynu wrth safle'r Brifysgol ynghylch gweithredoedd troseddol i efadu trethi.

## 2. Deddf Cyllid Troseddol 2017 (CFA 2017)

Mae rhan 3 o CFA 2017 yn cyflwyno trosedd corfforaethol newydd sef methiant i atal hwyluso efadu trethi.

Mae hyn yn berthnasol i'r Brifysgol mewn sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol yn methu atal 'Pobl Gysylltiedig' rhag cynorthwyo parti arall i efadu trethi.

Mae 'Pobl Gysylltiedig' yn cynnwys swyddogion, gweithwyr cyflogedig, gweithwyr, asiantiaid neu is-gontractwyr y Brifysgol neu bobl neu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol neu ar ei rhan.

Mewn unrhyw achos, mae'n drosedd, wrth gwrs, i unrhyw un efadu talu trethi o unrhyw fath, ac i gynorthwyo rhywun i wneud hyn. Gallai unrhyw unigolyn y canfyddir ei fod yn euog o wneud hyn fod yn destun achos troseddol o dan ddeddfwriaeth bresennol.

Fodd bynnag, o dan CFA 2017, yn achos y ddau beth canlynol:

- Gweithredoedd troseddol i efadu trethi gan dalwr trethi naill ai yn y DU neu dramor (fel unigolyn neu endid) o dan y gyfraith gyfredol A
- Gweithredoedd troseddol i hwyluso'r trosedd hwn gan 'Berson Cysylltiedig' â'r Brifysgol

caiff y Brifysgol ei chyhuddo'n awtomatig o'r drosedd o fethu atal ei chynrychiolwyr rhag cyflawni'r weithred droseddol o hwyluso, oni bai y gall ddangos bod ganddi weithdrefnau rhesymol ar waith i atal y weithred honno o hwyluso.

Gallai'r Brifysgol, os canfyddir ei bod hi'n euog, wynebu dirwy ddigyfyngiad, cael ei gwahardd rhag tendro am gontractau cyhoeddus a dioddef niwed i'w henw da.

Ceir enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid ystyried bod cydweithwyr yn cynorthwyo trydydd partïon i efadu trethi yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.

## 3. Rhwymedigaethau gweithwyr cyflogedig a phobl gysylltiedig eraill

Atgoffir gweithwyr cyflogedig a gweithwyr cysylltiedig bod angen iddynt lynu wrth bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar bob adeg a dylent sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r cynnwys a'r enghreifftiau.

Rhaid i'r holl weithwyr cyflogedig gwblhau'r hyfforddiant hanfodol ar-lein, gall methu gwneud hyn roi'r gweithwyr cyflogedig a'r Brifysgol mewn perygl.

Gall methu  cydymffurfio â'r polisïau a'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y polisi hwn arwain at gamau disgyblu i weithwyr cyflogedig a therfynu contract yn achos 'Pobl Gysylltiedig'.

Os bydd gweithwyr cyflogedig a gweithwyr cysylltiedig yn amau bod cydweithiwr neu weithiwr cysylltiedig yn hwyluso gweithredoedd trydydd parti i efadu trethi, dylent gysylltu â'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu ar unwaith.

Gall gweithwyr cyflogedig hefyd godi pryderon o dan y gweithdrefnau chwythu'r chwiban fel a amlinellir ym Mholisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd y Brifysgol.

## 4. Swyddog Cyfrifol

Mae'r Brifysgol wedi enwebu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu fel y Swyddog Cyfrifol a'r person hwn sy'n gyfrifol yn gyffredinol am wybodaeth, hyfforddiant ac ymholiadau ynghylch y Ddeddf Cyllid Troseddol yn ein sefydliad.  Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol ynghylch y Ddeddf hon, neu unrhyw bryderon ynghylch hwyluso efadu trethi, at y Prif Swyddog Ariannol.

## 5. Asesiad risg

Mae'r Brifysgol wedi adolygu ei risgiau, ei phrosesau a'i gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd i atal hwyluso efadu trethi. Mae'n cadw cofrestr o'r risgiau posib o hwyluso efadu trethi gan ei gweithwyr cyflogedig a'i gweithwyr cysylltiedig, ynghyd â rhestru rheolyddion i liniaru'r risgiau hynny ac unrhyw gamau gweithredu y mae eu hangen i wella'r rheolyddion hynny. Caiff y gofrestr hon ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, yn ôl yr angen.

## 6. Cyhoeddi arweiniad

Mae'r Brifysgol yn adolygu arweiniad a deddfwriaeth yn rheolaidd mewn perthynas â Deddf Cyllid Troseddol 2017 i sicrhau ei bod yn cynnal polisi CFA 2017 priodol. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried hyfforddiant priodol ar gyfer gweithwyr cyflogedig.

## Atodiad 1 – Enghreifftiau o helpu ac annog gweithredoedd troseddol o efadu trethi

At ddibenion eglurhaol, rhoddir enghreifftiau isod o adegau pan fydd gweithiwr cyflogedig neu weithiwr cysylltiedig o'r Brifysgol yn euog o gyflawni trosedd o efadu treth, ac felly bydd y Brifysgol hefyd yn euog:

1. Cofnodi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn fwriadol yn yr Holiadur Statws Cyflogaeth

   Mae cyflenwr am gael ei drin fel contractwr hunangyflogedig fel bod y taliadau a roddir iddo gan y Brifysgol yn daliadau gros, a gall y cyflenwr efadu talu treth incwm a dyledion yswiriant gwladol priodol. Gan wybod hyn, mae gweithiwr cyflogedig o'r Brifysgol yn helpu'r cyflenwr i efadu trethi drwy ddarparu gwybodaeth anghywir yn yr Holiadur Statws Cyflogaeth a ddefnyddir gan y Brifysgol i asesu a ellir ystyried Cyflenwr o'r fath yn hunangyflogedig at ddibenion trethi.

   Drwy ddarparu gwybodaeth anghywir yn y ffordd hon, mae gweithiwr cyflogedig o'r Brifysgol yn cyflawni trosedd oherwydd ei fod wedi cynorthwyo trydydd parti i gyflawni trosedd o efadu trethi.

2. Cynllwynio gyda Phrifysgol arall i lunio dogfennau anghywir sy'n honni bod gwasanaethau a ddarperir i'r Brifysgol honno y tu allan i gwmpas TAW:

   Mae Prifysgol X wedi gofyn i Dîm Ymchwil yn y Brifysgol ddarparu gwasanaethau dadansoddi data iddi o ran cyllid grant mae'n ei dderbyn, lle mae'r cyllid grant y tu allan i gwmpas TAW. Felly, nid yw Prifysgol X yn gallu adennill unrhyw TAW y gall y Brifysgol godi tâl amdani am y gwasanaeth dadansoddi data. Mae Prifysgol X yn gofyn i'r Brifysgol ddatgan yn anghywir yn y Cytundeb rhyngddynt fod y ddwy Brifysgol yn gweithredu fel Cydweithredwyr ar y prosiect (pan fydd hyn yn groes i'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd). Mae tîm y Brifysgol yn dod i'r casgliad bod Prifysgol X yn gofyn am hyn er mwyn efadu TAW ond mae'n llofnodi'r ddogfen er gwaethaf hynny heb wneud ymholiadau pellach neu geisio cymorth yn fewnol.

   Mae gweithwyr ymchwil y Brifysgol yn cyflawni trosedd oherwydd eu bod wedi cytuno i lofnodi Cytundeb lle maent yn gwybod bod yr wybodaeth a ddarperir yn anghywir a gwnaethpwyd hyn fel bod Prifysgol X yn gallu efadu talu'r dyledion TAW cysylltiedig ar gyfer eu gwasanaethau.

3. Helpu sefydliad addysg tramor i efadu trethi ar daliadau y bydd yn eu gwneud i'r Brifysgol:

   Mae cytundeb ar waith rhwng y Brifysgol a sefydliad addysg tramor, lle bydd y Brifysgol yn cyflenwi staff addysgu i'r sefydliad tramor ar gyfer rhaglen benodol. Mae'r cytundeb rhwng y partïon yn datgan y dylai'r sefydliad tramor dalu costau unrhyw drethi incwm lleol y gall fod yn ddyledus ar daliadau a wnaed am y gwasanaeth hwn. Mae'r sefydliad tramor yn dweud wrth weithiwr cyflogedig y Brifysgol os, yn hytrach na disgrifio'r gwasanaethau'n gywir fel 'gwasanaethau addysgu' ar yr anfoneb, y bydd yn eu disgrifio fel rhywbeth arall, (er enghraifft, fel gwasanaethau marchnata), ni fydd yn rhaid iddo dalu'r dreth incwm i'w awdurdod trethi tramor ei hun. Mae gweithiwr cyflogedig y Brifysgol yn cytuno i wneud hyn.

Mae gweithiwr cyflogedig y Brifysgol wedi cyflawni trosedd drwy gofnodi gwybodaeth anghywir ar yr anfoneb werthiannau , er bod y dreth sy'n cael ei hefadu'n dreth dramor yn hytrach na threth y DU.

4. Helpu gweithiwr cyflogedig arall neu drydydd parti i hawlio taliad sy'n ddyledus iddo fel traul yn hytrach na math arall o daliad a fyddai'n destun treth

   Mae Cyfarwyddwr y Brifysgol yn cytuno i ganiatáu i weithiwr cyflogedig hawlio am filltiroedd a yrrwyd rhwng ei gartref a'r Brifysgol (gweithle) drwy ffurflen dreuliau. Fodd bynnag, gan wybod ei bod hi'n groes i bolisi'r Brifysgol ac i helpu ei weithiwr i efadu trethi sy'n gyfiawn ddyledus ar yr ffurflen hawlio, mae'n caniatáu i'r gweithiwr cyflogedig ddisgrifio'r teithio fel ei fod ar gyfer teithiau ffug i ffwrdd o'r swyddfa.

   Mae Pennaeth yr Ysgol yn caniatáu i'r gweithiwr cyflogedig ddarparu gwybodaeth anghywir ar ei ffurflen dreuliau gan wybod hynny er mwyn efadu trethi ac mae'n cyflawni trosedd o gynorthwyo unigolyn i efadu trethi.

## Rheoli Fersiwn

| | |
|---|---|
| Fersiwn | 3.0 |
| Newidiadau | 1. Newid teitl swydd o Gyfarwyddwr Cyllid i Brif Swyddog Ariannol<br>2. Ailfformatio dogfen |
| Dyddiad | 10 Mai 2022 |
| Perchennog | Y Prif Swyddog Ariannol |

Dylid adolygu a diweddaru'r polisi hwn yn flynyddol.